

Adroddiad i	Y Pwyllgor Archwilio
Dyddiad	15 Mehefin 2026
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau
Swyddog Cyswllt	Angharad Ellis (MIAA)
Pwnc	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarterol Mehefin 2026



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ac am y cyfnod hyd at 31 Mai 2026.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. MIAA yw'r archwilwyr mewnol penodedig, ac mae ei waith yn cael ei lywodraethu gan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang fel sy'n berthnasol i'r sector cyhoeddus.
- 3 Mae'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno a'r cynnydd hyd at 31 Mai 2026 yn erbyn y cynllun y cytunwyd arno ar gyfer 2026/27.
- 4 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 2 yn rhoi diweddariad o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt sy'n deillio o adroddiadau blaenorol.

ARGYMHELLION

- 5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
 - i) **Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2025/26;**
 - ii) **Gwneud cynnydd yn erbyn cynllun 2026/27 y cytunwyd arno; a**
 - iii) **Nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt.**

CEFNDIR

- 6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.
- 7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

GWYBODAETH

- 8 Mae'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod 2025/26 ac yn cadarnhau bod y cynllun y cytunwyd arno wedi'i gyflawni'n llawn. Mae'r adroddiad hefyd yn cadarnhau'r cynnydd yn erbyn cynllun y cytunwyd arno ar gyfer 2026/27 hyd at 31 Mai 2026.
- 9 Mae'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gweithredu'r argymhellion o adroddiadau blaenorol.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy.
Cyllideb	Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses ar gyfer pennu cyllideb yn effeithiol.
Cyfreithiol	Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
Staffio	Mae adolygu systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.
Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Mae arweinydd ymgysylltu MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd trwy'r prosesau cyfieithu arferol.
Risgiau	Mae archwiliad mewnol y prosesau ariannol craidd yn cefnogi nodi a rheoli risgiau yn effeithiol.